Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Enw'r prosiect** | Future Energy Llanwern |
| **Cyfeirnod y ffeil** | EN010171 |
| **Statws** | Terfynol |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | 23 Chwefror 2024 |
| **Cyfarfod gyda** | Lighthouse Development Consulting |
| **Lleoliad** | Microsoft Teams |
| **Amcanion y cyfarfod** | Cyfarfod Cychwynnol |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o'r pwyntiau allweddol a drafodwyd, a'r cyngor a roddwyd

Cynghorodd yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) y byddai nodyn o'r cyfarfod yn cael ei wneud a'i gyhoeddi ar ei gwefan yn unol ag adran 51 Deddf Cynllunio 2008. Ni fyddai unrhyw gyngor a roddid o dan adran 51 yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r ymgeiswyr (neu eraill) ddibynnu arno.

Esboniodd yr Arolygiaeth y gallai fod oedi o hyd at chwe mis cyn cyhoeddi'r nodyn cyfarfod, os bydd yr Ymgeisydd yn gofyn amdano am resymau cyfrinachedd/ sensitifrwydd masnachol, neu hyd nes bod cais cwmpasu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno.

## Yr Ymgeisydd

Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan NextEnergy Capital, sef un o'r buddsoddwyr solar arbenigol mwyaf yn y byd a ysgogir gan ei genhadaeth i arwain y newid i ynni glân. Ers iddo gael ei greu yn 2007, mae NextEnergy Capital wedi bod yn weithredol wrth ddatblygu, adeiladu, a pherchen ar asedau cynhyrchu solar ar draws y byd, gan ddarparu dros 3GW o gapasiti solar. Mae NextEnergy Capital yn rheoli gwerth $3.9bn o ynni solar yn fyd-eang, ac yntau naill ai wedi caffael neu adeiladu mwy na 400 o asedau solar o ansawdd uchel hyd yma.

## Manylion y datblygiad arfaethedig

Mae'r safle wedi'i leoli o fewn ffiniau gweinyddol Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Sir Fynwy yn ne Cymru, gerllaw Aber Afon Hafren, ar wastadeddau Gwent. Mae'r cynigion yn ceisio darparu 400 MW o gapasiti gosodedig – digon i bweru 108,000 o gartrefi – sy'n gyfwerth â chyfanswm y galw am bŵer gan aelwydydd yng Nghasnewydd a Sir Fynwy

gyda'i gilydd. Mae hefyd yn gyfwerth â bodloni cyfanswm y galw am bŵer gan 8% o'r 1.3 miliwn o aelwydydd yng Nghymru.

Datganodd yr Ymgeisydd y bydd y cynigion yn ceisio gwrthdroi dirywiad ffosydd draenio'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) (gwastadeddau Gwent) o'u "statws anffafriol" cyfredol a hirsefydledig i "statws ffafriol" a chyflawni budd net i fioamrywiaeth i gefnogi amcanion Adfer Natur Cymru.

Amcangyfrifir y bydd y cynigion yn cynhyrchu gwaith ar gyfer oddeutu 5,000 o weithwyr a chontractwyr yng Nghymru, gan gynnwys oddeutu 200 o rolau swydd newydd a grëir wrth i fusnesau lleol ymestyn.

## Ymgysylltu

Mae'r Ymgeisydd yn bwriadu dechrau ymgynghoriad statudol yn yr hydref 2024, ac mae eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol i roi gwybod iddynt am gynlluniau dylunio cynnar ar gyfer y fferm solar. Diben hyn oedd helpu rhanddeiliaid i ddeall sut y dewiswyd y safle, beth fydd ei fuddion a sut bydd yr effaith amgylcheddol yn cael ei hasesu.

Cynhaliodd yr Ymgeisydd 'lansiad meddal' o'r prosiect ar 16 Ionawr 2024, a oedd yn cynnwys llythyrau yn rhoi gwybod i randdeiliaid gwleidyddol statudol am lansio'r prosiect a gwahoddiad i sesiwn friffio, datganiad i'r wasg, lansio gwefan y prosiect, a sefydlwyd canolfan gyswllt ar gyfer y prosiect.

Mae ymgysylltu â phreswylwyr a rhanddeiliaid wedi cynnwys galwad gyflwyniadol â Chyngor Sir Fynwy a Chyngor Dinas Casnewydd. Yn ogystal â hyn, anfonwyd taflen yn cyflwyno'r prosiect i breswylwyr yn y prif barth ymgynghori, sef y rhai hynny o fewn 2km o ffin safle'r prosiect.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y gallai'r Ymgeisydd ddymuno ystyried ymgynghori â chymunedau lleol nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr ymarfer mapio ar hyn o bryd, a fyddai'n defnyddio'r safle at ddibenion hamdden. Cynghorodd yr Arolygiaeth hefyd y dylid ymgysylltu â Network Rail i drafod darpariaethau amddiffynnol o ystyried y llinell reilffordd gyfagos. Yn ogystal, anogodd drafodaethau cynnar â Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, CADW ac Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent.

## Cwmpasu Asesiad o Effeithiau Amgylcheddol (AEA)

Mae cais Cwmpasu wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd a disgwylir iddo gael ei gyflwyno ym mis Mai 2024. Cyfeiriodd yr Arolygiaeth at y cais a amlinellwyd yn ei nodiadau cyngor i ymgeiswyr ddarparu ffeil .shp ar gyfer y datblygiad arfaethedig o leiaf 10 niwrnod gwaith cyn cyflwyno'r cais.

## Arolygon

Bydd arolygon yn cynnwys:

- Ecoleg
- Ffotograffiaeth tirwedd a gweledol
- Priffyrdd – tracio ac asesiad ar y safle

- Monitro sŵn
- Arolygon treftadaeth ar droed

Cynghorodd yr Arolygiaeth, wrth geisio hepgor agweddau neu faterion o'r AEA, y dylid darparu tystiolaeth ategol addas yng nghais cwmpasu'r ymgeisydd. Mae enghreifftiau o'r mathau o dystiolaeth a allai fod o ddefnydd wrth lywio'r broses gwmpasu yn cynnwys asesiadau desg cychwynnol, parth gweledol damcaniaethol (ZTV) rhagarweiniol neu dystiolaeth o gysylltu ag ymgyngoreion perthnasol ynglŷn â'r methodolegau arfaethedig a chael eu cytundeb arnynt.

Dywedodd yr Ymgeisydd y bwriedir hepgor yr angen am dorri ffosydd treialu archaeolegol. Gofynnodd yr Arolygiaeth iddo ddarparu tystiolaeth ynglŷn â photensial archaeolegol y safle ac unrhyw resymau dros eithrio'r angen am dorri ffosydd treialu neu eu heffeithiolrwydd, a dywedodd y byddai ymatebion ymgyngoreion yn ffactor perthnasol wrth bennu p'un a ellid cytuno ar ymagwedd o'r fath trwy'r broses gwmpasu.

Mae'r Ymgeisydd yn nodi bod trafodaethau cyfyngedig wedi cael eu cynnal hyd yma gydag ymgyngoreion perthnasol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, ond ei fod yn bwriadu dilyn dulliau y cytunwyd arnynt yn gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer ffermydd solar eraill cyfagos a gyflwynwyd o dan gyfundrefnau cydsynio gwahanol. Dywedodd yr Arolygiaeth, o ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio, y fframwaith polisi perthnasol a diweddariadau, ac y bydd gan bob safle ei faterion unigryw ei hun, fod angen cyfiawnhau'r methodolegau a gynigir yn glir, ac y byddai'r rhain yn cael eu hystyried yng ngoleuni ymatebion ymgynghori a dderbynnir.

Cynghorodd yr Arolygiaeth y gallai ffotograffiaeth tirwedd a gweledol fod yn ddefnyddiol o leoliadau yn Lloegr, gyferbyn â'r safle yn amodol ar lefel rhyngwelededd.

## Caffael Gorfodol

Er y cwblhawyd ymarfer cyfeirnodi tir ar gyfer y safle cyfan, ac mae trafodaethau wedi dechrau gyda'r 27 o dirfeddianwyr, mae'r Ymgeisydd yn debygol o geisio Hawliau Caffael Gorfodol yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel mesur wrth gefn. Mae hyn yn debygol o gynnwys tir er mwyn i'r coridor ceblau gysylltu ag is-orsaf y Grid Cenedlaethol.

## Dyddiadau Allweddol

Rhoddodd yr Ymgeisydd drosolwg o'i raglen ac amlygodd y dyddiadau allweddol canlynol:

- Cwmpasu AEA – Mai 2024
- Datganiad ymgynghori â'r gymuned – Mehefin/ Gorffennaf 2024
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) – yr haf 2024
- Dechrau ymgynghoriad statudol – yr hydref 2024
- Cwblhau'r AEA – y gaeaf 2024
- Cyflwyno DCO – y gwanwyn 2025

Cynghorodd yr Arolygiaeth os yw'r Ymgeisydd yn bwriadu cyflwyno dogfennau drafft i'w hadolygu, y dylai roi gwybod i'r Arolygiaeth mewn da bryd er mwyn iddi allu trefnu adnoddau; mae adolygiad yn cymryd 6-8 wythnos fel arfer.